**Cyn 16 08-99(min)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg Cyn 16, Ysgolion ac Addysg Gynnar**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 17 Tachwedd 1999

**Amser:** 9.30 am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Llawr Gwaelod, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| William Graham | Ceidwadwyr | Dwyrain De Cymru |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Rosemary Butler | Llafur | Gorllewin Casnewydd |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| John Marek | Llafur | Wrecsam |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Democratiaid Rhyddfrydol | Canol Caerdydd |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc y Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg y Cynulliad Cenedlaethol |
| John Howells | Adain Perfformiad Ysgolion |
| Elizabeth Taylor | Adain Gweinyddu Ysgolion |
| Keith Davies | Adain Perfformiad Ysgolion |

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Amnewidiadau:** Dim

**Datganiadau o Ddiddordeb:** Dim

**Eitem 1 ar yr Agenda: Adroddiad gan yr Ysgrifennydd Cynulliad**

1.1 Roedd yr Ysgrifennydd Cynulliad wedi ymgymryd â nifer o ymweliadau ac ymrwymiadau areithio.

1.2 Ar 15 Hydref roedd wedi ymweld ag Ysgol Gynradd Llangurig, Ysgol Uwchradd Y Trallwng ac Ysgol y Bannau yn Aberhonddu ac wedi annerch Cynadleddau Cymdeithas Ysgolion Cynradd Cymru a Chymdeithas Ysgolion Uwchradd Cymru.

1.3 Lansiwyd yr Addewid i Blant ganddi yng Nghanolfan Gofal Ysbaid Rhyd y Pennau ar 19 Hydref ac ar y diwrnod canlynol bu’n areithio yn Seminar Addysg Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr yn Llanfair ym Muallt. Hefyd ym mis Hydref roedd wedi cynnal cyfarfod â Chyngor y Prifysgolion ar gyfer Addysgu Athrawon i drafod eu pryderon yngl•n â Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon.

1.4 Ar ddechrau mis Tachwedd roedd wedi trafod cydraddoldeb hiliol yn y Cwricwlwm Cenedlaethol gyda’r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Ar 4 a 5 Tachwedd ymwelwyd ag Ysgol Gynradd Abercanaid ym Merthyr ac Ysgol Uwchradd Penglais yn Aberystwyth a bu’n annerch y Gynhadledd Sefydlog ar Addysg. Roedd wedi cynnal cyfarfod â’r NUT i drafod ailstrwythuro cyflogau athrawon.

1.5 Roedd hefyd wedi cynnal cyfarfod â Chymdeithas y Plant ar 16 Tachwedd i drafod eu cynlluniau presennol a’u cynlluniau ar gyfer y dyfodol ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru a’i bwriad yn y flwyddyn newydd oedd datblygu ei swyddogaeth fel Ysgrifennydd ar faterion Plant o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

1.6 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cynulliad adroddiad ar ddatblygiadau ar nifer o faterion:

**Cynlluniau Strategol Addysg**

1.7 Mae'n ofynnol i bob AALl yng Nghymru gynhyrchu Cynlluniau Strategol Addysg o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998. O dan y trefniadau dirprwyo mae'n rhaid iddi gymeradwyo'r cynlluniau cyn i'r awdurdodau eu cyhoeddi. Diben y cynllun yw nodi targedau'r awdurdodau ar gyfer gwella ysgolion, a'r gweithgareddau y bydd yr awdurdodau yn ymgymryd â hwy i gynorthwyo ysgolion er mwyn iddynt gyflawni'r targedau hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau hefyd yn cwmpasu rhannau eraill o'u gwasanaeth addysg o fewn eu cynlluniau.

1.8 Dros yr wythnosau sydd i ddod byddai swyddogion y Cynulliad o'r Adran Addysg yn ymweld â phob AALl ac yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Addysg a'u timau cynllunio strategol i drafod eu cynlluniau. Disgwyliai allu cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd ar y cynnydd wrth gymeradwyo'r cynlluniau hynny.

**Y Rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST)**

1.9 Cyflwynwyd y cylchlythyr drafft yn nodi manylion rhaglen GEST ar gyfer y flwyddyn 2000-01 i AALl a chyrff eraill â diddordeb ar gyfer ymgynghoriad ar 12 Tachwedd. Rhaglen GEST oedd y prif gyfrwng a ddefnyddiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddatblygu'r agendâu o godi safonau a chynnwys cymdeithasol mewn ysgolion. Cyfanswm gwerth y rhaglen y flwyddyn nesaf oedd £48 miliwn, gyda 60% ohono yn cael ei dalu ar ffurf grant gan y Cynulliad Cenedlaethol a gwerth cyfatebol yn dod yn sgîl cyfraniadau o 40% gan yr AALl drwy eu RSG. Gan fwyaf, dyrannwyd yr arian i'r Awdurdodau yn ôl fformwla cytûn yn amodol ar broses y gyllideb.

1.10 Roedd Rhaglen Gweithio Ymlaen y Pwyllgor yn cynnwys cyfle i drafod dyraniadau GEST ar 9 Chwefror lle y gallent wedyn edrych yn fwy manwl ar y rhaglen.

**Y Flwyddyn Ddarllen Genedlaethol**

1.11 Cofnodwyd diwedd y Flwyddyn Ddarllen Genedlaethol yng Nghymru gyda chynhadledd yng Nghaerdydd ar 29 Hydref. Darparodd yr achlysur gyfle i lansio adroddiad 'Diwedd y Flwyddyn' yn nodi enghreifftiau o'r projectau creadigol ac arbennig yr ymgymerwyd â hwy a gwerthuswyd cyflawniadau'r flwyddyn. Roedd pob un o aelodau'r Cynulliad wedi derbyn copïau o'r adroddiad. Bu'r Flwyddyn yn llwyddiant ysgubol yng Nghymru. Cynhaliwyd llawer o ddigwyddiadau a gweithgareddau a oedd wedi atgyfnerthu ein polisïau o godi safonau llythrennedd mewn ysgolion ac ehangu'r gweithgareddau dysgu i oedolion. Mynegodd yr Ysgrifennydd Cynulliad ei gwerthfawrogiad i bawb a oedd wedi cyfrannu ac wedi cymryd rhan yn y Flwyddyn, yn arbennig i Rhiannon Lloyd, y cydlynydd, ac i Gyngor Llyfrau Cymru a oedd wedi gweithio mor galed i sicrhau llwyddiant y Flwyddyn yng Nghymru.

1.12 Ei gobaith oedd bod y mentrau a sefydlwyd yn ystod y Flwyddyn yn arwydd o agwedd newydd tuag at ddarllen a'r manteision, y pleser a'r mwynhad a gynigir gan lyfrau. I ategu hyn, ac mewn cydnabyddiaeth o lwyddiant y Flwyddyn, roedd y Prif Ysgrifennydd wedi cyhoeddi ar 29 Hydref y byddai £160,000 ychwanegol ar gael dros y tair blynedd nesaf i alluogi Cyngor Llyfrau Cymru i barhau i hyrwyddo pwysigrwydd darllen. Argymhellodd pan fyddai'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl 16 yn ymweld â'r Llyfrgell Genedlaethol, Aberystwyth, y dylent ymweld â'r Cyngor, â'r un peth yn berthnasol i'r Pwyllgor Cyn 16 pe byddent yn ymweld ag Aberystwyth.

**Ymddeoliad Cynnar i Benaethiaid**

1.13 Hysbysodd y Pwyllgor bod DfEE yn ddiweddar wedi cyhoeddi eu cefnogaeth i gynllun ymddeoliad cynnar i benaethiaid yn Lloegr a oedd wedi rhoi gwasanaeth boddhaol ond na allent ddatblygu'r newidiadau mawr a ragwelwyd yn yr agenda ar gyfer gwella addysg. Ni chymerwyd unrhyw benderfyniad hyd yn hyn ar p'un a ddylid sefydlu unrhyw drefniadau cyffelyb i Gymru.

**Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru**

1.14 Hysbysodd y byddai gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru, corff proffesiynol statudol newydd i athrawon i'w sefydlu cyn fis Medi, 25 o aelodau. Byddai'r mwyafrif ohonynt yn athrawon a etholwyd gan eu cydweithwyr yn y maes. Er mwyn paratoi ar gyfer yr etholiadau arfaethedig, roedd y Cabinet yn ddiweddar wedi cytuno i ddiwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999 o dan y Weithdrefn Frys. Roedd y rheoliadau diwygiedig yn ehangu'r diffiniad o'r rheini a fyddai'n gymwys i gael eu hethol i gynnwys athrawon o ysgolion meithrin, ysgolion arbennig ac addysg bellach. Addawyd hyn yn yr ymarfer ymgynghori ond ni fyddai'r rheoliad fel y'i cymeradwywyd yn flaenorol yn cyflawni hyn.

1.15 Dyfarnwyd y contract i drefnu'r broses etholiadau i'r Electoral Reform Ballot Services Ltd. Y dyddiad cau ar gyfer enwebu athrawon i'r Cyngor oedd 15 Rhagfyr; byddai'r bleidlais yn cael ei chynnal drwy fis Mawrth 2000 a'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ar 10 Ebrill.

1.16 Er mwyn helpu i roi cyhoeddusrwydd i'r Cyngor Addysgu Cyffredinol a'r etholiadau yn benodol, roedd yn ddiweddar wedi ysgrifennu at bob ysgol ac undeb athrawon yng Nghymru ac wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg. Gellid gweld copi o'r llythyr a'r datganiad i'r Wasg ar y Rhyngrwyd a'r Mewnrwyd ynghyd â chanllaw cryno i'r Cyngor.

**Cyfrif Maint Dosbarthiadau Cynradd Medi 1999**

1.17 Ar 5 Tachwedd roedd yr Ysgrifennydd Cynulliad wedi cyhoeddi canlyniadau'r cyfrif ar 28 Medi o bob dosbarth cynradd yng Nghymru. Gellid gweld copïau o'r cyhoeddiad ar y

Rhyngrwyd a'r Mewnrwyd. Dangosodd y canlyniadau fod ymron i bob un o'r dosbarthiadau derbyn yng Nghymru bellach yn bodloni'r terfynau maint dosbarth statudol newydd o 30 o ddisgyblion neu lai. O'r 38 o ddosbarthiadau derbyn gyda mwy na 30 o ddisgyblion, roedd 28 ohonynt yn cynnwys eithriadau a ganiateir o dan y rheoliadau. Ar gyfer y 10 dosbarth oedd yn weddill roedd swyddogion yn gwahodd AALl i nodi'r hyn oedd wedi digwydd ac i unioni'r sefyllfa mewn cydweithrediad â chyrff llywodraethol yr ysgolion dan sylw. Bu gostyngiad o 70% ers mis Ionawr 1998 o ran nifer y dosbarthiadau babanod â mwy na 30 o ddisgyblion. Ym mis Medi eleni roedd 9,000 o fabanod mewn dosbarthiadau o fwy na 30 o'u cymharu â 30,000 ym mis Ionawr 1998. Roedd llai na 9% o fabanod Cymru bellach mewn dosbarthiadau â dros 30 o ddisgyblion. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i grant a oedd ar hyn o bryd yn ariannu 473 o athrawon a 64 o ystafelloedd dosbarth newydd ledled Cymru.

1.18 Roedd yn bleser ganddi nodi y bu gostyngiad cyffredinol ym maint dosbarthiadau CA2 / iau yng Nghymru – o 38% o ddisgyblion mewn dosbarthiadau iau gyda dros 30 o ddisgyblion ym mis Ionawr 1998 i 31% ym mis Medi 1999. Roedd hyn wedi synnu beirniaid a oedd wedi awgrymu y byddai dosbarthiadau babanod llai yn golygu dosbarthiadau iau mwy; ac wedi dangos un o effeithiau'r arian cynyddol i ysgolion yn y ddau setliad refeniw llywodraeth leol diwethaf.

1.19 Yn arwyddocaol roedd lefelau cyffredinol addysgu oedran cymysg hefyd wedi gostwng. Roedd nifer y dosbarthiadau cyfnodau allweddol cymysg wedi gostwng yn ddramatig o ymron i 900 ym mis Ionawr 1999 i lai na 200 ym mis Medi 1999. Ym mis Ionawr 1999 roedd gan 132 o ddosbarthiadau babanod cymysg dros 30 o ddisgyblion (4381 o ddisgyblion); o'i gymharu â dim ond 77 ym mis Medi 1999 (2507 o ddisgyblion). Ar y cyfan roedd un o bob chwe dosbarth cynradd yng Nghymru bellach yn cynnwys dros 30 o ddisgyblion o'i gymharu â mwy nag un o bob pedwar ym mis Ionawr 1998.

1.20 Yn ddiweddar gwahoddwyd Awdurdodau i wneud cais am £3.6m i ariannu gwaith cyfalaf yn ymwneud â gostwng meintiau dosbarthiadau a £13.5m ar gyfer costau refeniw ar gyfer 2000/2001. Roedd y ceisiadau am arian refeniw yn amodol ar gymeradwyaeth gan gyllideb dros dro'r Cynulliad. **Byddai'n cyflwyno adroddiad mwy manwl i'r pwyllgor ar y mater hwn yn ei gyfarfod nesaf ar 1 Rhagfyr.**

**Ymagwedd Strategol tuag at Wasanaethau i Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru**

1.21 Cynhaliwyd tair cynhadledd i alluogi ystod eang o ddiddordebau yng Nghymru i gyfrannu eu safbwyntiau ar y gwaith a wnaed gan y Cynulliad i ddatblygu strategaeth ar gyfer darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Cynhaliwyd y cynadleddau yn Abertawe ar 9 Tachwedd, yn Llanelwy ar 11 Tachwedd ac yn Llanfair ym Muallt ar 16 Tachwedd. Cafwyd presenoldeb da ymhob un ohonynt a chafwyd trafodaeth adeiladol ar ystod eang o faterion. Roedd trefniadau ar y gweill i gynnal ymgynghoriadau uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn y Flwyddyn Newydd. Byddai adroddiad drafft a strategaeth ddrafft yn dilyn a threfnwyd trafodaeth o'r rhain

ar gyfer y cyfarfod ar 1 Chwefror. Atgoffwyd yr Aelodau y cafwyd cefnogaeth lawn i'r project hwn gan y Sesiwn Lawn.

**Cynnig i godi dirwyon am ddiffyg presenoldeb yn yr ysgol**

1.22 Fel y crybwyllwyd yn ei datganiad ar 13 Hydref, roedd swyddogion wedi trafod gyda DfEE gynigion i gynyddu lefel y dirwyon llys y gellid eu gosod ar rieni nad oeddent yn sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Un canlyniad pwysig i'r cynnig hwn fyddai y byddai'n ofynnol i riant ymddangos mewn llys i ateb y cyhuddiad o ddiffyg presenoldeb neu wynebu cael eu harestio. Cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol ar y cynnig hwn ar 12 Tachwedd, byddai'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 10 Rhagfyr. Darparwyd copïau i'r aelodau a gosodwyd copïau yn Llyfrgell y Cynulliad Cenedlaethol.

1.23 Diolchodd y Cadeirydd i Mrs Butler am ei hadroddiad a gwahoddwyd cwestiynau.

1.24 Ymhlith y pwyntiau a godwyd wrth drafod roedd:

- p'un a fyddai cynllun ymddeoliad cynnar i benaethiaid yn cael ei gyflwyno yng Nghymru; a ph'un a oedd y cynllun yn uniongyrchol gysylltiedig â'r fenter rheoli perfformiad;
- roedd adroddiadau papur newydd wedi awgrymu y gallai rhai ysgolion fod wedi ffugio ffigurau dosbarthiadau a bod angen 1,700 o athrawon ychwanegol i ostwng pob dosbarth cynradd i lawr i 30 o ddisgyblion – ar gost o tua £34m heb gynnwys costau adeiladau ac ystafelloedd ychwanegol;
- mynegwyd pryder pellach na ddylai perfformiad a chyflawniad disgyblion fod yn un o'r meini prawf ar gyfer arfarnu athrawon; cyflwynwyd y sylw ond ni chafwyd cytundeb ar y pwynt hwn, dadleuwyd hefyd bod cynnydd disgyblion yn ganolog i ddyrchafu athrawon; awgrymwyd bod angen i'r Pwyllgor drafod ymhellach a llunio barn ffurfiol;
- ni ddylid asesu athrawon mewn sefyllfa lle roedd eu dyfodol ariannol wedi'i gysylltu â phethau oedd y tu hwnt i'w rheolaeth uniongyrchol; a
- p'un ai mewn ffordd ddilynol y dylid mynd i'r afael â maint dosbarthiadau drwy ysgolion.

1.25 Nododd yr Ysgrifennydd Cynulliad na fu unrhyw drafodaethau am gynllun ymddeoliad cynnar yng Nghymru, byddai papur yn cael ei baratoi i'r Aelodau yn egluro'r cynllun yn Lloegr; nid oedd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn cydnabod y ffigurau a gyhoeddwyd yn y papurau newydd ar faint dosbarthiadau o ran yr angen am athrawon ychwanegol; nid oedd yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth o ysgolion yn ffugio eu ffurflenni; os oedd gan unrhyw un dystiolaeth o'r fath y dylid ei throsglwyddo iddi. O ran y mater yn ymwneud â rheoli perfformiad athrawon cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cynulliad at drafodaeth mewn cyfarfodydd blaenorol, roedd wedi derbyn llythyr y Cadeirydd, dyddiedig 10 Tachwedd, ar ran y Pwyllgor ac roedd yn eu hystyried ochr yn ochr â'r ymgynghoriad parhaus. Byddai'n ymateb i lythyr y Pwyllgor a gobeithiai y byddai hyn yn lliniaru eu pryderon. Awgrymodd y Cadeirydd o gofio cryfder y safbwyntiau a fynegwyd gan yr Aelodau y dylai'r Pwyllgor drafod y mater ymhellach yn ei

gyfarfod ar 1 Rhagfyr. Pwysleisiodd y byddai hyn ar draul trafodaeth ar ddatblygiad polisi'r Pwyllgor ar y Ddarpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar i blant 3 blwydd oed. Cytunodd y Pwyllgor i awgrym y Cadeirydd. O ran maint dosbarthiadau cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cynulliad bod y gofyniad cyfreithiol yn ymwneud â dosbarthiadau babanod a bod y polisi yn gweithredu'n briodol i sicrhau nad oedd gan unrhyw ddosbarth babanod fwy na 30 o ddisgyblion erbyn mis Medi 2001. Roedd y dystiolaeth yn dangos bod maint dosbarthiadau iau yn gostwng o ganlyniad i'r ychwanegiadau cyffredinol i arian refeniw ar gyfer addysg a ddarperir i awdurdodau lleol. Er mwyn ehangu'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer terfyn o 30 o ddisgyblion i bob dosbarth cynradd byddai angen deddfwriaeth sylfaenol.

**Gweithredu – Clerc i gynnwys Rheoli Perfformiad Athrawon ar yr agenda ar gyfer 1 Rhagfyr a chael gwared ar yr eitem ar Ddatblygu Polisi – Y Ddarpariaeth Addysg Blynyddoedd Cynnar ar gyfer plant 3 blwydd oed.**

**Eitem 2 ar yr Agenda: ETAG**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Cynog Dafis, Cadeirydd y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl 16 i'r cyfarfod. Gwahoddwyd yr Ysgrifennydd Cynulliad Tom Middlehurst ond roedd yn sâl, dymunodd y Cadeirydd wellhad buan iddo.

2.2 Rhoddodd Richard Davies grynodeb byr o gefndir ETAG a oedd wedi paratoi cynllun gweithredu ar gyfer addysg a hyfforddiant â'r nod o adeiladu ar fentrau cadarn gan gynnwys Adeiladu Ysgolion Ardderchog Gyda'n Gilydd (BEST) a BEST ar gyfer AAA, Dysgu i Bawb a Chymhwyso am Lwyddiant. Canolbwyntiodd ETAG ar anghenion y mwyafrif gan ddadlau dros ymagwedd strategol yn cwmpasu band eang o gefndiroedd, anghenion a diddordebau myfyrwyr ond gyda'r nod o wella'r broses o gyflwyno'r sgiliau sy'n hanfodol i'r economi Gymreig. Wrth wneud hyn ei nod oedd cynyddu lefelau mynediad a chyfranogiad i bawb.

2.3 Argymhellodd ETAG y dylid sefydlu Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (CETW), a fyddai'n uniongyrchol atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r CETW ymhlith pethau eraill yn ariannu consortia cymunedol â'r nod o sicrhau partneriaethau i ehangu dewis, ehangu'r ddarpariaeth drwy TGC a chau'r bylchau o ran datblygu sgiliau yn arbennig sgiliau cyflogadwyedd. Cydnabu ETAG y dylai'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg gwmpasu band eang o angen ac y dylai cyngor ac arweiniad gyrfaoedd fod yn wasanaeth Cymru gyfan i frand cyffredin a safon unffurf. Pwysleisiodd ETAG bwysigrwydd ehangder a chydbwysedd yn y cwricwlwm a fyddai'n cynnwys y Cwricwlwm Cymreig.

2.5 Nododd Cynog Dafis y byddai'r Pwyllgor Ôl 16 yn cwblhau ei adroddiad a'i argymhellion terfynol yn ei gyfarfod ddydd Mercher 24 Tachwedd. Roedd eisoes wedi cytuno i argymell y dylai CETW fod yn gyfrifol am ariannu addysg ôl 16 yn llwyr, gan gynnwys dosbarthiadauchwech – drwy'r Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) – ac addysg i oedolion ac addysg gymunedol. Roedd y Pwyllgor hefyd wedi cytuno y byddai angen fformwla ariannu

cyson, ffurfiol a theg; dylai adlewyrchu'r amrywiaeth o ran anghenion ledled Cymru gan gynnwys anghenion y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, natur wledig, y cwricwlwm cudd ac y dylai gydnabod meysydd o amddifadedd cymdeithasol. Byddai'r Pwyllgor Ôl 16 yn ystyried cymwysterau ôl 16 a Baccalaureate Cymreig yn ei gyfarfod nesaf. O ran haenau rhanbarthol roedd y drafodaeth yn y cyfarfod diwethaf o blaid opsiwn B, fel y nodir yn ETR 11-99(p.1A), i fabwysiadu paneli rhanbarthol â swyddogaeth ymgynghorol sylfaenol ac i weithio gyda'r consortia cymunedol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith. Byddai disgwyl i'r paneli gysylltu â ffora economaidd rhanbarthol, yr Awdurdod Datblygu a sefydliadau hyfforddi i weithredu cynlluniau hyfforddiant. Ni fyddai gan y paneli rhanbarthol gyllidebau dirprwyedig.

2.6 Ymhlith y pwyntiau a godwyd wrth drafod roedd:

- yr angen i gyfateb arian 6ed dosbarth ag angen a'i anelu at wella'r ddarpariaeth bresennol;
- p'un a allai AALl ychwanegu at yr arian 6ed dosbarth a ddynodir yn ôl y fformwla;
- yr angen i gyngor gyrfaoedd adlewyrchu cyfle cyfartal i bawb;
- pryder a ganiatawyd digon o amser ar gyfer ystyriaeth gan y Pwyllgor Cyn 16;
- y dylai'r ddarpariaeth 6ed dosbarth gael ei fonitro pe newidiwyd y trefniadau ariannu;
- yr angen i unrhyw fformwla ariannu roi ystyriaeth i anghenion a gweithrediad Amcan 1 yn y dyfodol;
- yr angen i'r fformwla ariannu gydnabod 'anghenion bugeiliol'/y cwricwlwm cudd;
- y farn y dylai arian 6ed dosbarth barhau drwy'r AALl;
- y dylai aelodaeth CETW a'i gyrff rhanbarthol fod yn gynrychioliadol a chynnig cydbwysedd heb ddiddordeb mwyafrif amlwg.

2.7 Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Cynulliad mai'r Pwyllgor Cyn 16 fyddai â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gymwysterau, gan gynnwys cwricwlwm a chymwysterau ôl 16, a fyddai'n ystyried y pwnc mewn cyfarfod yn y dyfodol. Byddai dosbarthiadau chwech bach yn elwa ar gyfleusterau ac adnoddau wedi'u rhannu i alluogi darpariaeth eang a chytbwys. Ar faterion bugeiliol a chwricwlwm cudd, roedd ysgolion eisoes yn darparu hyn drwy weithgareddau allgyrsiol a chwaraeon - roedd y rhain yn feysydd y gallai colegau addysg bellach wella arnynt. Cyfrifoldeb yr AALl fyddai penderfynu ar ariannu ychwanegol dosbarthiadau chwech gan yr AALl fel ar hyn o bryd. Atgoffodd yr Ysgrifennydd Cynulliad yr Aelodau yn ogystal â dosbarthu papurau a thrafodaeth yn y Pwyllgor, y cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Ôl 16, y trafodir yr adroddiad ymhellach mewn Sesiwn Lawn ym mis Rhagfyr. Dylai newid graddol i fformwla ariannu cytûn ac effeithiol helpu i ategu rhaglennu Amcan 1, byddai'r cynnydd yn cael ei fonitro'n ofalus. Nododd Mr Dafis y sylwadau yngl•n â chynrychiolaeth gytbwys o ran aelodaeth y cyngor ac aelodaeth ranbarthol.

2.8 Ar y cyfan roedd y Pwyllgor o blaid nodau ETAG a'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Ôl 16. Byddai'n ystyried gydag ACCAC y cwricwlwm a'r cymwysterau ôl 16 yn y Flwyddyn Newydd ac yn hysbysu'r Pwyllgor Ôl 16 am unrhyw gynnydd. Diolchodd y Cadeirydd i Cynog Dafis am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor. Byddai safbwyntiau'r Pwyllgor Cyn 16 yn

cael eu hanfon at Mr Dafis fel Cadeirydd y Pwyllgor Ôl 16 ac at yr Ysgrifenyddion Cynulliad ar gyfer Addysg Cyn 16 ac Addysg Ôl 16.

**Eitem 3 ar yr Agenda: Datblygu Polisi – Pwrcasu AALl - TGC**

**Cyflwyniad gan BECTA**

**Papur: Cyn 16 08-99(p.1)**

3.1 Cyflwynodd y Cadeirydd Fred Daly, Cyfarwyddwr y Grid Dysgu Cenedlaethol (NGfL) a Chris Bergen, Pennaeth y Grid Dysgu Cenedlaethol, Addysg. Rhoddodd Mr Daly gyflwyniad gan dynnu ar y pwyntiau allweddol yn y papur a ddosbarthwyd yn flaenorol i'r Aelodau (Cyn 16 08-99(p.1)). Cyfeiriad gwefan Rhyngrwyd y Grid Dysgu Cenedlaethol yw (www.ngfl.gov.uk). Ceir copïau o sleidiau cyflwyniad Mr Daly yn **Atodiad 1**.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Daly am y cyflwyniad cyntaf hwn i'r Pwyllgor o dan yr arolwg polisi hwn a gwahoddodd gwestiynau.

3.4 Ymhlith y pwyntiau a godwyd wrth drafod roedd:

- a fyddai cytundeb prydlesu yn fwy cost effeithiol i ysgolion?;
- pa dargedau oedd wedi'u sefydlu i fesur medrusrwydd a hyder athrawon?;
- beth oedd dosbarthiad daearyddol cyflenwyr BECTA?;
- sut y gellid gwella'r diffygion o ran seilwaith ceblau i rannau o Gymru?;
- pe dilynwyd model Cyngor Technoleg Addysg yr Alban beth y gallai Cymru ei wneud i ychwanegu gwerth i gaffaeliad drwy ddarbodusrwydd maint?;
- costau uchel cysylltu â'r rhyngrwyd i ysgolion lle roedd mynediad yn yr Unol Daleithiau am ddim;
- sut roedd datblygiad yng Nghymru yn mynd rhagddo o'i gymharu â rhannau eraill o'r DG?;
- y cwmpas ar gyfer datblygu a chynnal deunyddiau'r Cwricwlwm Cenedlaethol; a
- mynegwyd pryder bod ymateb cychwynnol rhai AALl i'r ymgynghori yn beirniadu'r ddarpariaeth BECTA yng Nghymru ac yn arbennig y deunydd Cymraeg sydd ar gael.

3.5 O ran prydlesu nododd Mr Daly fod angen cynllun ar ysgolion yn cynnig 'taliadau y gellir eu rhagweld' a oedd yn cynnwys model gwasanaeth wedi'i reoli, roedd y cyngor a roddwyd i ysgolion yn cynnwys yr angen am strategaeth ar gyfer rhoi'r gorau iddi petai'r gwasanaeth yn eu methu. Roedd arolygon yn Ewrop, cyn cyflwyno'r offer cludadwy yn Lloegr a Chymru, wedi dangos bod medrusrwydd a hyder yn isel a bod y mater o offer cludadwy ac argaeledd hyfforddiant wedi annog gwelliant mesuradwy. Cyflwynwyd cynlluniau peilot ar gost o £23m yn

darparu offer a hyfforddiant i 10,000 o athrawon yn Lloegr. Cafwyd buddsoddiad cyfrannol yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf cyhoeddwyd 12 o gyflenwyr gwasanaeth wedi'i reoli ac roedd yr ysgolion a'r AALl a ymwelodd â'r wefan yn dangos diddordeb. Byddai'n cymryd amser i fesur y diddordeb hwn ond ni ddisgwylid y byddai nifer fawr yn trefnu i ddefnyddio'r gwasanaeth. Cadarnhaodd Mr Daly bod y ddarpariaeth mewn ardaloedd dwysedd isel megis Canolbarth Cymru yn peri pryder ond roedd darparwyr yn ymwybodol o'r gyfradd elw ar eu buddsoddiad. Roedd BT yn darparu gwasanaeth oriau ysgol sefydlog; drwy ISDN2 gallai ysgolion sicrhau cyfradd sefydlog ar gost o £600 i £800. Byddai BECTA yn dymuno gweld y gwasanaeth hwn yn cael ei ymestyn i lyfrgelloedd, amgueddfeydd ac ati a hefyd y ddarpariaeth band eang yn cael ei ehangu wrth i ddefnydd aml bwrpas ddod yn bwysicach i ysgolion. Byddai BECTA yn awyddus i'r fanyleb ar gyfer y lefel sylfaenol o fynediad gynnwys mynediad i NGfL.

3.6 Teimlai Mr Daly fod llawer o ddeunydd ar gael a oedd yn ymwneud â Chymru yn y ddwy iaith. Roedd VTC Cymru yn cynnwys dros 2,000 o dudalennau wedi'u rhaglennu gan BECTA - cadarnhaodd bod cyfleoedd i adnoddau ychwanegol gael eu darparu. Cadarnhaodd swyddogion bod cynnydd yn cael ei wneud ond cytunwyd y gellid gwneud mwy. Roedd arian a ddarparwyd drwy GEST yn helpu i sicrhau bod ysgolion ar y llwybr cywir i gwrdd â'r targed y dylai pob ysgol fod wedi'u cysylltu â'r Grid Dysgu Cenedlaethol erbyn y flwyddyn 2002.

3.7 Diolchodd y Cadeirydd i BECTA am eu cyflwyniad.

**Eitem 4 ar yr Agenda: Trafodaeth Ragarweiniol ar y Gyllideb 2000-2001**

**Papur: CYN 16 08-99(p.2)**

4.1Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ystyried y cyllidebau drafft fel y'u cynigiwyd gan yr Ysgrifennydd Cynulliad yn unol â gorchymyn sefydlog 19.2, roedd yn angenrheidiol i'r Pwyllgor gyflwyno eu barn erbyn 24 Tachwedd gyda thrafodaeth yn cael ei chynnal yn y Sesiwn Lawn ar 2 Rhagfyr.

4.2 Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cynulliad grynodeb o'i phapur i'r Pwyllgor, hefyd darparodd restr o'r acronymau a ddefnyddir yn y tablau i'r Aelodau.

4.3 Yn gryno cadarnhaodd bod y gyllideb ddrafft ar gyfer 2000-2001 yn cynnwys £75m ychwanegol a gynigiwyd ym mis Chwefror, roedd hyn yn £75m yn ychwanegol at y cynnydd o £70m ar gyfer 1999-2000. Y cynnydd cyffredinol ar gyfer awdurdodau lleol oedd £155m gan gynnwys y £75m. Byddai disgwyl i'r awdurdodau gynyddu'r cyllidebau addysg yn ôl eu cyfran o'r adnoddau addysg ychwanegol o leiaf. Byddai angen tua £45m i gwrdd â'r cynnydd o ran cyflogau a phrisiau a £4m ar gyfer arian GEST cyfatebol.

4.4 Ymhlith y pwyntiau a godwyd wrth drafod roedd:

- dylai'r Pwyllgor ofyn am sicrwydd na ddylid gwario'r £30m o'r £75m ychwanegol a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cyllid a gyfeiriwyd at ysgolion fel rhan o'u cyllideb ddirprwyedig, ar waith gweinyddol;
- a oedd yr arian a oedd wedi'i glustnodi ar gyfer ailstrwythuro athrawon yn ychwanegol at fformwla Barnet i sicrhau ymroddiad parhaus?;
- a oedd gwariant yr AALl o'r dyraniad cyfalaf i gael ei fonitro?;
- gofynnwyd am sicrwydd nad oedd arian Techniquest – adnodd Cymru gyfan – yn gostwng fel yr ymddengys yn y tabl;
- gofynnwyd am eglurhad o'r % cynnydd a ddyfarnwyd o dan fformwla Barnet;
- beth oedd y ddarpariaeth ar gyfer yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon?;
- fel yn Lloegr a fyddai cydlynydd yng Nghymru i gynnal y fenter Euro Maths 2000 a pha fentrau rhyngwladol eraill y byddai Cymru'n ymwneud â hwy?;
- pa ddarpariaeth oedd ar gael ar gyfer recriwtio athrawon?
- a ellid sicrhau bod arian ar gael i gynnal arolwg ACCAC o gyfle cyfartal ar draws y cwricwlwm?;
- a fyddai arian ar gael i gynnal arolwg o'r cymwysterau ôl 16?;
- yr angen i edrych yn ofalus ar y ffordd y mae ysgolion mewn ardaloedd cymdeithasol ddifreintiedig yn mynd i'r afael â thriwantiaeth ac i sicrhau y rhoddwyd arian digonol i gynnal gweithgaredd yn y maes hwn; ac
- eglurhad o'r hyn a gynhwyswyd yn y gyllideb ar gyfer ariannu ysgolion annibynnol.

4.5 Eglurwyd bod y swm o £75m yn ychwanegol at y £70m a gyhoeddwyd yn flaenorol a fyddai'n cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn nesaf a blynyddoedd yn y dyfodol. Byddai'r ddarpariaeth ar gyfer gwariant Papur Gwyrdd yn ychwanegol at y £75m. Roedd yr arian i ailstrwythuro athrawon yn rhan o floc y Cynulliad Cenedlaethol ac wedi'i gyfrifo yn unol â fformwla Barnet. Byddai ffurflenni gwariant yr AALl yn parhau i gael eu monitro a **chytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn cael papur yn nodi patrwm gwariant yr AALl ar addysg yn erbyn y ddarpariaeth.** Roedd yr arian i Techniquest yn cynnwys £600,000 wedi'i arallgyfeirio o Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd (CDBC) a thaliad unigol o £400,000 i adnewyddu'r deunyddiau arddangos. Y flwyddyn nesaf byddai'r broses ariannu yn dychwelyd i'r ddarpariaeth gwaelodlin ond byddai'n fwy na'r gwaelodlin gwreiddiol a ddarparwyd drwy CDBC. Cyfrifwyd Barnet fel dyraniad % yn seiliedig ar boblogaeth y DG. Byddai cyhoeddiad yn cael ei wneud maes o law ar Maths 2000 yng Nghymru, byddai gwaith y Cyngor Ymweliadau Addysgol i Ewrop yn cael ei gefnogi yn y ddarpariaeth ieithoedd tramor modern a byddai'n ystyried anghenion Cymru. Cynhwyswyd y ddarpariaeth ar gyfer recriwtio athrawon yn llinell gyllideb yr Asiantaeth Hyfforddi Athrawon: byddai'r patrwm gwariant ar gyfer ACCAC yn newid y flwyddyn nesaf i adlewyrchu diwedd y gwaith ar arolwg y Cwricwlwm Cenedlaethol, roedd yr Ysgrifennydd Cynulliad eisoes wedi gofyn i ACCAC edrych ar gyfle cyfartal yn y cwricwlwm, byddai hyn yn cael ei ariannu o fewn yr arian a oedd ar gael ar hyn o bryd. Roedd ACCAC eisoes yn gweithio ar lunio cwricwlwm diwygiedig ar gyfer addysg Ôl 16 a fyddai'n cael ei gyflwyno ym mis Medi 2000.

4.7 Nododd yr Ysgrifennydd Cynulliad yr ymroddwyd arian grant o £1m i broject yn cynnwys 9

o ysgolion yn edrych ar ffyrdd dyfeisgar o fynd i'r afael â thriwantiaeth ac addawodd i edrych unwaith eto ar y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer mentrau triwantiaeth yn gysylltiedig ag amddifadedd cymdeithasol. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer ysgolion annibynnol yn cynnwys ysgolion ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig a darpariaeth ar gyfer gwaith arolygu yn y dyfodol yn dilyn adroddiad Ymchwiliad Cam-drin Plant Gogledd Cymru. Yn gyffredinol roedd yr Ysgrifennydd Cynulliad yn rhannu pryderon yr Aelodau o ran y potensial ar gyfer dryswch o ran diwyg y tablau ariannu, gofynnwyd i swyddogion weithio i egluro'r llinellau cyllidebol mewn tablau ariannol yn y dyfodol.

**Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad gyda sylwadau'r Pwyllgor i'w trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Cyllid.**

**Eitem Agenda 5: Cofnodion y Cyfarfod ar 3 Tachwedd 1999 - Cyn 16 07-99(min)**

5.1 Cytunwyd ar y cofnodion.

5.2 Nododd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf ar yr Arolwg Cwricwlwm Cenedlaethol (CYN 16 08-99(p.3) ac ar Gyflog yn ôl Perfformiad i athrawon (CYN 16 08-99(p.4).

5.3 Gwahoddwyd yr Aelodau a oedd am ymweld â'r Adran Addysg i roi eu henwau i'r Clerc a fyddai'n gwneud y trefniadau angenrheidiol. Hysbyswyd yr Aelodau am adroddiad a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Archwilio ar ymgynghoriad cyhoeddus sef 'Listen Up! Effective Community Consultation'. Byddai'r Clerc yn sicrhau bod copïau o grynodeb o'r adroddiad ar gael i'r Aelodau. Roedd yr adroddiad llawn ar gael ar wefan y Comisiwn Archwilio www.audit-commission.gov.uk.

5.4 Daeth y cyfarfod i ben am 12.30.

Pwyntiau Gweithredu

| | | |
|---|---|---|
| Eitem 1 ar yr Agenda | | |
| Para 1.20 | Yr Ysgrifennydd Cynulliad i gyflwyno adroddiad ar archwiliad maint dosbarthiadau ar 1 Rhagfyr | |

| | | |
|---|---|---|
| Para 1.25 | Clerc i gyflwyno Rheoli Perfformiad Athrawon i agenda 1 Rhagfyr a chael gwared ar eitem ar y Blynyddoedd Cynnar | 17/11 |
| Eitem Agenda 4 | | |
| Para 4.5 | YC i ddarparu papur ar batrwm gwariant yr AALl i'r Pwyllgor | |
| Para 4.7 | Cadeirydd i ysgrifennu at YC i gyflwyno sylwadau'r Pwyllgor ar y gyllideb | |
| Eitem Agenda 5 | | |
| Para 5.2 | Aelodau i hysbysu'r Clerc os ydynt am ymweld â'r Adran Addysg | |
| Para 5.2 | Clerc i gael crynodeb o Adroddiad y Comisiwn Archwilio | |